



Rheolaethau ariannol mewnol elusennau

Rhestr wirio

Cynnwys

1. Rhestr wirio hunanasesu	1
2. Rhai materion allweddol, trefniadau monitro a'r risg o dwyll	2
3. Incwm	3
4. Pryniadau a thaliadau	5
5. Asedau a buddsoddiadau	7

1. Rhestr wirio hunanasesu

Bwriedir i'r cwestiynau yn y rhestr wirio hon helpu ymddiriedolwyr elusen a'u cynghorwyr i werthuso perfformiad eu helusen yn erbyn y gofynion cyfreithiol a'r argymhellion arfer da a nodwyd yng nghanllaw'r comisiwn ar reolaethau ariannol mewnol elusennau. Dylai ymddiriedolwyr adolygu perfformiad eu helusen o leiaf unwaith y flwyddyn.

Mae pob un o'r cwestiynau ar y rhestr wirio yn cysylltu â pharagraff o'r canllaw, lle y gellir cael manylion pellach. Ni fydd pob un o'r rheolaethau a restrir yn briodol i bob elusen, er enghraifft, os yw adran o'r rhestr wirio yn delio â maes gweithgaredd nad yw'r elusen yn ymgymryd ag ef, ni fydd yr adran honno o'r rhestr wirio yn berthnasol.

Mae'n rhaid i elusennau gydymffurfio â'r gofynion cyfreithiol bob amser ac mae'r gofynion hyn wedi'u marcio yn y rhestr gyfeirio. Nid yw ateb 'ie' ar gyfer argymhellion arfer da yn golygu nad oes lle i wella ymhellach. Nid yw ateb 'na' bob amser yn dangos bod problem. Efallai nad yw'r elusen wedi rhoi rheolaeth arbennig yn ei lle oherwydd bod y risg yn fach ac mae'r golled bosibl yn dderbyniol, yn wyneb y gost a fyddai'n codi wrth roi rheolaethau mewnol cryfach yn eu lle.

Yn olaf, dylai'r atebion yn y rhestr wirio gael eu seilio ar wybodaeth yr ymddiriedolwyr o'r hyn sy'n digwydd yn yr elusen ac nid beth y maent yn disgwyl y bydd yn digwydd. Mae cael rheolaeth fewnol yn rhan o'r darlun yn unig. Rhaid i'r elusen weithredu'n ymarferol er mwyn bod yn effeithiol.

2. Rhai materion allweddol, trefniadau monitro a'r risg o dwyll

2.1 Rheolaethau ariannol drwy'r elusen gyfan	Ie	Na
Ydy dyletswyddau wedi'u rhannu er mwyn darparu 'gwiriad dwbl' awtomatig?	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Ydy'r ymddiriedolwyr yn cynnal adolygiad blynyddol o'r rheolaethau ariannol mewnol?	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
2.2 Gweithgareddau monitro	Ie	Na
Ydy cyllidebau blynyddol o incwm a gwariant yn cael eu paratoi a'u cymeradwyo gan yr ymddiriedolwyr?	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Ydy perfformiad yn cael ei fesur yn erbyn cyllidebau yn rheolaidd ac a yw esboniadau yn cael eu ceisio ar gyfer amrywiadau?	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
2.3 Archwilio mewnol a'r pwyllgor archwilio	Ie	Na
Ydy'r ymddiriedolwyr wedi ystyried yr angen i benodi archwiliwr mewnol neu sefydlu pwyllgor archwilio?	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
2.4 Gwybodaeth a chyfathrebu	Ie	Na
Ydy'r ymddiriedolwyr yn cael gwybodaeth reolaidd am berfformiad ariannol yr elusen?	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Ydy'r ymddiriedolwyr yn trafod perfformiad ariannol yr elusen ym mhob un o'u cyfarfodydd?	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Oes cylch gorchwyl yn ei le ar gyfer unrhyw is-bwyllgor cyllid, neu is-grŵp tebyg o'r bwrdd ymddiriedolwyr?	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Ydy unrhyw is-bwyllgor cyllid yn adrodd i fwrdd llawn yr ymddiriedolwyr er mwyn gwneud penderfyniad terfynol?	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
2.5 Cyfrifoldebau ymddiriedolwyr	Ie	Na
A yw cofnodion cyfrifyddu digonol yn cael eu cadw o'r holl drafodion? (gofyniad cyfreithiol)	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Ydy'r ymddiriedolwyr wedi ystyried yr angen am bolisi cronfeydd wrth gefn a rhoi polisi cronfeydd wrth gefn yn ei le os oes angen un? (gofyniad cyfreithiol)	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Ydy'r cyfrifon yn cydymffurfio â'r gofynion cyfreithiol? (gofyniad cyfreithiol)	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Ydy'r cyfrifon yn cael eu cymeradwyo'n ffurfiol gan ymddiriedolwyr mewn cyfarfod blynyddol?	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Ydy'r ymddiriedolwyr wedi penodi archwiliwr ariannol neu archwiliwr annibynnol? (gofyniad cyfreithiol)	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Ydy ymddiriedolwyr sydd newydd eu penodi yn cael copi o'r cyfrifon diweddaraf?	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Ydy'r ymddiriedolwyr yn ffeilio'r adroddiad blynyddol a chyfrifon a'r ffurflen flynyddol mewn pryd? (gofyniad cyfreithiol)	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>

2.6 a 2.7 Rheoli'r risgiau o droseddau a chamdriniaeth ariannol	Ie	Na
Ydy ymddiriedolwyr a staff yn gwybod pam bod troseddau a chamdriniaeth ariannol yn peri risg i'r elusen a'r enghreifftiau cyffredin o weithgareddau twyllodrus posibl?	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Oes gan yr elusen bolisi atal llwgrwobrwyo, polisiau ar dderbyn lletygarwch, derbyn rhoddion a chofrestr buddiannau?	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Oes gan yr elusen bolisiau a rheolaethau ar gyfer defnyddio a storio gwybodaeth electronig?	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Oes rhaglenni cyfrifiadurol gan yr elusen i ddiogelu ei data a'i systemau rhag ymyrraeth allanol?	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Oes gweithdrefnau gan yr elusen ar gyfer adrodd am amheuan yn fewnol, ac i'r comisiwn a'r heddlu?	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>

3. Incwm

3.1 Incwm a dderbynnir drwy'r post	Ie	Na
Ydy'r post yn cael ei agor ym mhresenoldeb dau unigolyn nad ydynt yn perthyn i'w gilydd?	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
A yw'r holl sieciau a'r arian a dderbynnir yn cael eu cofnodi ar unwaith?	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Ydy'r elusen yn cadw post heb ei agor yn ddiogel?	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
3.2 Incwm o gasgliadau cyhoeddus a digwyddiadau codi arian	Ie	No
Os yw'r elusen yn gwneud casgliadau cyhoeddus neu'n cynnal digwyddiadau codi arian:		
• ydy casgliadau cyhoeddus yn bodloni gofynion cyfreithiol? (gofyniad cyfreithiol)	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
• ydy blychau casglu yn cael eu rhifo ac ydy'r bylchau sy'n cael eu dosbarthu a'u dychwelyd yn cael eu cofnodi?	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
• ydy pob blwch casglu yn cael ei selio?	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
• ydy pob blwch casglu yn cael ei agor a'i gyfrif yn rheolaidd gan yr elusen ac a yw cofnod yn cael ei gadw o leoliad y blychau a'r arian sydd ynddynt?	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
• ydy casgliadau'n cael eu cyfrif ym mhresenoldeb y casglwr ac a yw derbynneb yn cael ei rhoi iddynt?	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
• ydy dau unigolyn nad ydynt yn perthyn i'w gilydd yn cyfrif ac yn cofnodi'r incwm?	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
• ydy'r arian yn cael ei fancio cyn gynted â phosibl heb ddiwynu treuliau?	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
• ydy cofnodion yn cael eu cadw ar gyfer pob digwyddiad codi arian?	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Ar gyfer incwm o docynnau:		
• ydy tocynnau'n cael eu rhifo ymlaen llaw?	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
• ydy cofnodion yn cael eu cadw o bawb sy'n cael tocynnau i'w gwerthu, a rhifau'r tocynnau a roddwyd iddynt?	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
• oes cofnodion o'r tocynnau a werthwyd?	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
• ydy'r arian a dderbynnir yn cael ei wirio yn erbyn y tocynnau a werthwyd?	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Ydy'r elusen wedi cydymffurfio â Rhan II o Ddeddf Elusennau 1992 os yw codwyr arian proffesiynol yn cael eu defnyddio? (gofyniad cyfreithiol)	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>

3.3 Cyfraniadau Cymorth Rhodd	Ie	Na
Ydy'r elusen yn gwneud y mwyaf o'r defnydd cyfreithlon o Gymorth Rhodd gan ei rhoddwyr?	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Ydy'r elusen yn gwirio'n rheolaidd i sicrhau bod pob ad-daliad treth cymwys yn cael ei dderbyn?	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Ydy'r elusen yn cadw'r cofnodion sy'n ofynnol gan HMRC ar gyfer hawliadau Cymorth Rhodd?	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
3.4 Cymynroddion	Ie	Na
Ydy'r elusen yn adnabod ac yn monitro'r cymynroddion mawr a dderbynnir ac yn sicrhau eu bod wedi'u cynnwys yn gywir yn y cyfrifon?	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
3.5 Rhoddion elusen llygredig a rhoddwyr sylweddol	Ie	Na
Ydy'r elusen wedi cadw'r cofnodion angenrheidiol i adnabod y trafodion â 'rhoddwyr sylweddol' ar gyfer rhoddion a dderbyniwyd hyd at Ebrill 2011? (gofyniad cyfreithiol)	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
O Ebrill 2011, ydy'r ymddiriedolwyr wedi rhoi gweithdrefnau yn eu lle i adnabod 'rhoddion llygredig elusennau'?	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
3.6 Incwm masnachu	Ie	Na
Os yw'r elusen yn ymgymryd â gweithgareddau masnachu (naill ai masnachu er mwyn hyrwyddo ei hamcanion neu fasnachu anelusennol):		
• os yw lefel y masnachu anelusennol yn arwyddocaol, a yw'n cael ei gyflawni gan is-gwmni masnachu?	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
• oes polisi prasio gan yr elusen ar gyfer y nwyddau a'r gwasanaethau a gyflenwir?	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
• oes polisi anfonebu gan yr elusen ar gyfer y nwyddau a'r gwasanaethau a gyflenwir?	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
• ydy'r elusen yn adolygu dyledion sydd heb eu casglu a gweithdrefnau casglu?	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
• oes gweithdrefnau i gysoni'r symiau a anfonebwyd ar eu cyfer a'r arian parod a dderbyniwyd â'r anfonebau sydd heb gael eu talu?	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
3.7 Gweithdrefnau bancio a gwarchodaeth	Ie	Na
Ydy derbyniadau sy'n dod i mewn yn cael eu bancio'n brydlon?	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Oes yswiriant ar gyfer cynnwys y sêff neu'r blwch arian parod ac arian sy'n cael ei gludo?	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Ydy cronfeydd yn cael eu bancio heb dynnu treuliau?	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
3.8 Gwirio cofnodion incwm	Ie	Na
Ydy gwiriadau rheolaidd yn cael eu gwneud i sicrhau bod cofnodion incwm yn cytuno â llyfrau talu i mewn a chyfriflenni banc?	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Ydy rhywun heblaw'r sawl a wnaeth y cofnod yn y cofnodion cyfrifyddu yn gwirio hyn?	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>

4. Pryniadau a thaliadau

4.1 Rheolaethau ac awdurdodi gwariant ar nwyddau a gwasanaethau	Ie	Na
Oes polisi ysgrifenedig ar gyfer awdurdodi gwariant?	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Ydy'r anfonebau a dderbyniwyd yn cael eu gwirio yn erbyn archebion sy'n cadarnhau'r prisiau a bod y nwyddau neu'r gwasanaethau a archebwyd wedi cael eu derbyn?	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
4.2 Rheolaethau ac awdurdodi gwariant ar grantiau	Ie	Na
Os yw'r elusen yn rhoi grantiau, oes polisi rhoi grantiau ganddi?	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Ydy'r elusen yn gwneud ac yn monitro grantiau yn unol â'r polisi rhoi grantiau?	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
4.3 Talu â siec	Ie	Na
Ydy'r elusen yn cydymffurfio ag unrhyw ofynion yn y ddogfen lywodraethol ynglŷn â phwy all lofnodi sieciau?	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Ydy'r mandad banc yn mynnu bod o leiaf dau lofnodwr?	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Oes arfer o beidio â llofnodi sieciau gwag?	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Ydy llyfrau sieciau etc yn cael eu cadw mewn lle diogel a dim ond y bobl a enwebir sy'n gallu eu defnyddio?	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Oes cofnod ysgrifenedig o unrhyw derfynau ariannol ar unigolion sy'n llofnodi?	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Ydy'r holl wariant â sieciau'n cael eu cofnodi yn y llyfr arian parod a'i nodi gyda'r rhif siec perthnasol, natur y taliad a'r talai?	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Ydy sieciau'n cael eu llofnodi gyda thystiolaeth ddogfennol o natur y taliad yn unig, e.e. anfoneb?	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
4.4 Taliadau drwy gerdyn debyd/credyd/talu	Ie	Na
Oes gan yr elusen bolisi ar gyfer defnyddio cardiau talu, gan gynnwys y meini prawf ar gyfer eu rhoi, terfynau gwario a'u diogelwch?	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Ydy'r elusen yn cyfleu'r polisi ar gyfer defnyddio cardiau i bob ymddiriedolwr ac aelod o staff sy'n eu defnyddio?	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Ydy'r cardiau'n cael eu canslo pan fydd y deiliad yn gorffen gweithio i'r elusen?	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Ydy'r holl wariant cerdyn yn cael ei ategu gan dalebau ac anfonebau a'i gofnodi yn y cofnodion cyfrifyddu bob tro y defnyddir y cerdyn?	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Ydy cyfriflenni cerdyn yn cael eu hanfon i'r tîm cyllid elusen a'u gwirio yn erbyn cofnodion ac anfonebau ategol?	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Ydy defnydd y deiliad cerdyn o'r cerdyn yn cael ei adolygu'n annibynnol yn achlysurol i gadarnhau bod y defnydd ohono yn cyd-fynd â'r polisi?	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>

4.5 Taliadau drwy ddebydau uniongyrchol, archebion sefydlog a chredyd uniongyrchol BACS	Ie	Na
Ai dim ond unigolion a enwir sydd wedi'u hawdurdod i sefydlu debydau uniongyrchol, archebion sefydlog a chredydau uniongyrchol?	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Ydy'r elusen yn defnyddio system awdurdodi ddeuol ar gyfer taliadau BACS?	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Ydy'r elusen yn monitro'r trefniadau i sicrhau bod trefniadau talu awtomatig yn cael eu canslo pan nad yw'r nwyddau a'r gwasanaethau yn cael eu cyflenwi mwyach i'r elusen?	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
4.6 Taliadau arian parod	Ie	Na
Ydy pob ymdrech yn cael ei wneud i gadw taliadau arian parod i'r lleiaf posibl?	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Ydy pob taliad arian parod yn cael ei wneud o gronfa arian parod ac nid o'r arian parod a dderbynnir?	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Ydy dogfennau ategol wedi'u hawdurdodi gan rywun heblaw'r sawl sy'n cadw'r arian mân neu'r sawl sy'n gwneud yr hawliad?	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Ydy manylion pob taliad yn cael eu nodi yn y llyfr arian mân?	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Ydy gwiriadau annibynnol rheolaidd yn cael eu gwneud o'r gronfa arian mân a'r cofnodion?	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
4.7 Cyflogau wythnosol a misol	Ie	Na
Ydy didyniadau statudol (treth ac YG) yn cael eu gwneud o gyflogau gweithwyr a'u hanfon yn rheolaidd i HMRC? (gofyniad cyfreithiol)	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Ydy'r elusen yn cydymffurfio â deddfwriaeth isafswm cyflog? (gofynion cyfreithiol)	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Ydy unrhyw ddidyniadau eraill o gyflogau yn cael eu gwneud dim ond pan fyddant yn angenrheidiol neu wedi'u hawdurdodi? (gofyniad cyfreithiol)	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Ydy'r ffurflenni diwedd blwyddyn (P60 a P11D) yn cael eu cwblhau a'u ffeilio gyda HMRC erbyn y dyddiad cau? (gofyniad cyfreithiol)	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Os yw'r elusen yn cyflogi staff ydy'r trefniadau pensiwn gofynnol yn eu lle? (gofyniad cyfreithiol)	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Oes contractau cyflogaeth gan bob gweithiwr?	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Ydy cofnodion personél yn cael eu cadw a'u dal ar wahân i'r cofnodion cyflogau?	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Ydy lefelau cyflogau yn cael eu hawdurdodi a'u cofnodi'n briodol?	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Oes system awdurdodi ar gyfer cofnodi a hysbysu staff sy'n dechrau ac yn gadael, newid oriau a newidiadau eraill i'r gyflogres?	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Ydy taliadau'n cael eu gwneud drwy BACS?	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>

4.8 Talu treuliau ac ad-daliadau	Ie	Na
Oes polisi ysgrifenedig gan yr elusen ar gyfer talu ac ad-dalu treuliau?	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Ydy'r polisi yn cael ei gyfleu i'r ymddiriedolwyr, staff a'r gwirfoddolwyr?	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Ydy treuliau'n cael eu had-dalu dim ond pan fydd yr unigolyn wedi talu'r gost wrth ymgymryd â busnes yr elusen?	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Ydy'r ffurflen hawlio treuliau yn cynnwys hunanddatganiad sy'n nodi bod y cais yn gywir ac wedi codi wrth ymgymryd â busnes yr elusen?	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Ydy ad-daliadau'n cael eu gwneud drwy drosglwyddiad BACS neu siec?	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Os yw'r elusen yn talu cyfraddau milltiroedd ar gyfer teithio, ydy'r cyfraddau yn unol â chyfraddau cymeradwy HMRC?	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
4.9 Benthyciadau	Ie	Na
Ydy telerau'r benthyciad wedi'u dogfennu?	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Oes gan yr elusen gynllun ad-dalu ar gyfer ad-dalu'r prif gyllidwr ac unrhyw log sy'n ddyledus?	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
4.10 Gwirio cofnodion gwariant	Ie	Na
Ydy gwiriadau rheolaidd yn cael eu gwneud i sicrhau bod cofnodion gwariant yn gywir ac yn cyfateb â chyfriflenni banc?	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Ydy gwiriadau rheolaidd yn cael eu gwneud i sicrhau nad oes unrhyw anghysondeb rhwng y taliadau a wnaed a'r anfoneb wreiddiol neu'r cofnodion talu?	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Ydy rhywun heblaw'r sawl a wnaeth y cofnod yn y cofnodion cyfrifyddu yn gwirio hyn?	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>

5. Asedau a buddsoddiadau

5.1 Rheolaethau ar gyfer asedau sefydlog	Ie	Na
Ydy rhestr gynhwysfawr o asedau sefydlog yn cael ei chadw a'i diweddarau'n gyson?	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Ydy asedau'n cael eu gwirio'n rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod nhw mewn cyflwr da ac o ddefnydd i'r elusen?	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Ydy'r elusen wedi ystyried prynu yswiriant?	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Ydy'r defnydd o asedau sefydlog yn cael ei adolygu'n flynyddol (i sicrhau'r defnydd gorau ohonynt a'u bod yn gwasanaethu buddiannau'r elusen)?	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>

5.2 Buddsoddiadau	Ie	Na
Oes polisi buddsoddi gan yr elusen?	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Ydy'r polisi hwn yn cynnwys yr angen i ystyried arallgyfeirio buddsoddiadau, gan gynnwys cyfrifon banc?	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Ydy perfformiad buddsoddiadau'n cael eu hadolygu'n gyson?	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Ydy cyngor proffesiynol yn cael ei geisio, os yw'n briodol, ar ddewis neu werthu buddsoddiadau?	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Ydy'r elusen yn archwilio eiddo buddsoddi er mwyn sicrhau bod cyfamodau tenantiaid yn cael eu bodloni?	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Oes rheolaethau i sicrhau bod yr holl incwm buddsoddiadau sy'n ddyledus yn cael ei dderbyn?	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
5.3 Arian a ddelir fel ased cyfredol	Ie	Na
Oes cofnodion diogel ar gyfer pob cyfrif banc a chymdeithas adeiladu?	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Ydy cyfriflenni banc yn cael eu derbyn yn rheolaidd ac ydy cysoniadau banc rheolaidd yn cael eu cynnal?	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Ydy cyfarwyddiadau i gau neu agor cyfrifon yn cael eu hawdurdodi'n briodol a'u hadrodd i'r ymddiriedolwyr?	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Ydy'r elusen yn sicrhau nad oes unrhyw gyfrifon banc segur?	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Ydy'r cyfrifon yn cael eu monitro i sicrhau nad yw unrhyw drydydd parti yn eu defnyddio?	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Ydy'r ymddiriedolwyr yn adolygu costau, buddiannau a risgiau eu cyfrifon cyfredol a chyfrifon adnau yn gyson?	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
5.4 Bancio electronig	Ie	Na
Os yw'r elusen yn defnyddio bancio electronig i wneud taliadau, ydy'r system a ddefnyddir yn gofyn i ddau unigolyn awdurdodi'r trafodion?	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Ydy cyfrifiaduron personol yn cael eu cadw'n ddiogel gyda meddalwedd ysbïo a gwrth-feirws a muriau gwarchod personol?	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Ydy ymddiriedolwyr a'r staff yn cael gwybod am yr angen i sicrhau nad yw manylion diogelwch yr elusen (gan gynnwys cyfrinair a PIN) yn cael eu cyfaddawdu?	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Ydy'r PIN a'r cyfrinair yn cael eu newid yn gyson, er enghraifft, i leddfu'r risgiau o gyfaddawdu diogelwch pan fydd unigolion yn gadael yr elusen?	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Ydy'r elusen yn cadw rhestr o bobl (ymddiriedolwyr a staff) sydd wedi'u cymeradwyo i gael mynediad i'r PIN a'r cyfrinair?	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Ydy'r elusen yn cadw llwybr archwilio o'r trafodion bancio electronig?	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Ydy'r rhai sy'n defnyddio cyfleusterau bancio ar-lein wedi cael eu hyfforddi ar sut i'w defnyddio?	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>

5.5 Bancio anhraddodiadol	Ie	Na
<p>Os yw'r elusen yn defnyddio dulliau bancio anhraddodiadol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • ydy'r ymddiriedolwyr yn gosod ac yn cymeradwyo polisiau sy'n diffinio pryd y gellir defnyddio dulliau bancio anhraddodiadol? 	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
<ul style="list-style-type: none"> • ydy'r defnydd o ddulliau o'r fath wedi'i gyfyngu i drosglwyddiadau hanfodol pan na ellir defnyddio dulliau bancio traddodiadol? 	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
<ul style="list-style-type: none"> • ydy'r elusen yn cadw llwybr archwilio o drafodion bancio anhraddodiadol? 	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
<ul style="list-style-type: none"> • ydy'r elusen yn sicrhau bod y rheolaethau ar gyfer ei thrafodion banc traddodiadol hefyd yn gweithredu yn achos trafodion bancio anhraddodiadol? 	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
5.6 Cronfeydd cyfyngedig a chronfeydd gwaddol	Ie	Na
<p>Oes gweithdrefnau i sicrhau bod unrhyw gyfyngiadau ar ddefnyddio cronfeydd, gan y rhoddwr neu drwy apêl, yn cael eu dilyn?</p>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
<p>Ydy'r elusen yn sicrhau bod yr amodau sy'n gysylltiedig â gwaddolion parhaol yn cael eu bodloni?</p>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>